# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 3 Hydref 2017

Amser: 09.30 - 10.39

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Paul Davies AC<br>Llyr Gruffydd AC |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Owain Roberts |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Gohebiaeth ar faterion Safonau'r DU: Gohebiaeth gan yr Arglwydd Bew, Cadeirydd y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (18 Gorffennaf 2017)**

## 3 Diwygio'r Cynulliad: Gohebiaeth gan y Llywydd

3.1 Trafododd yr aelodau y llythyr a gofynnodd am wybodaeth briff cyfreithiol manwl a bydd yn dychwelyd at y mater hwn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

## 4 Adroddiadau Blynyddol y Grwpiau Trawsbleidiol 2016-17

4.1 Trafododd yr Aelodau yr Adroddiad Monitro Grŵp Trawsbleidiol a baratowyd gan y Swyddfa Gyflwyno ar gyfer y Pwyllgor yn unol â pharagraff 44 o'r rheolau ar weithrediad y Grwpiau Trawsbleidiol.

4.2 Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Llywydd gyda chamau awgrymedig ar y Grwpiau Trawsbleidiol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r rheolau ac wedi eu categoreiddio wedyn yn Gategorïau B ac C yr Adroddiad.

## 5 Ymchwiliad i Lobïo - Adroddiad Drafft

5.1 Trafododd yr Aelodau ar yr adroddiad drafft. Caiff adroddiad diwygiedig ei drafod yn y cyfarfod nesaf.